

Gofod i *dyfu*: gwireddu potensial y mudiad garddio cymunedol

Adroddiad gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol
Hydref 2025



Cynnwys

- 3 Rhagair gan Clare Matterson CBE
- 4 Crynodeb gweithredol
- 6 Ystadegau allweddol
- 7 Graddfa ac effaith garddio cymunedol yn y DU
- 13 Yr heriau sy'n wynebu garddio cymunedol
- 17 Gwireddu potensial y mudiad garddio cymunedol
- 24 Cydnabyddiaethau
- 25 Cefndir a methodoleg ymchwil

Ni yw elusen arddio'r DU, sy'n helpu pobl a phlanhigion i ffynnu.

Ein cenhadaeth yw bod yn bresennol ar daith gydol oes pobl gyda garddio – er mwyn dod â hapusrwydd, iechyd, cymunedau cryfach a byd naturiol ffyniannus.

Gyda 220 mlynedd o brofiad, rydym yn cefnogi garddwyr o bob oed gyda chyngor arbenigol, prosiectau ysgol a chymunedol, ymchwil wyddonol, cymwysterau proffesiynol, ein pum Gardd RHS, a digwyddiadau sy'n cynnwys Sioe Flodau eiconig RHS Chelsea.



Rhagair

Gan Clare Matterson

Garddio cymunedol yw un o'r mudiadau mwyaf tawel bwerau yn y DU heddiw. Mae'n dod â phobl ynghyd, yn codi ysbryd, yn gwella iechyd, ac yn trawsnewid corneli a esgeuluswyd yn fannau sy'n fwrwm o fywyd. Yn y RHS, rydym wastad wedi credu mewn gwerth garddio – ond mae Gofod i Dyfu yn nodi pennod newydd. Dyma'r tro cyntaf i ni fapio graddfa, effaith, ac anghenion grwpiau garddio cymunedol y DU yn y fath fanylder, ac mae'r canlyniadau'n ysbrydoledig ac yn agoriad llygad.

Rwyf wedi gweld swyn garddio cymunedol gyda'm llygaid fy hun. Yn fy ngardd gymunedol fy hun, rwyf wedi gwyllo plentyn yn rhyfeddu ar blannu ei nionyn cyntaf, cymdogion yn dod o hyd i gyfeillgarwch dros rannu tomen gompst, a darn o dir diffaith yn cael ei drawsnewid yn lle o falchder a phwrpas. Mae'r mannau hyn yn cyflawni llawer mwy na thyfu planhigion – maent yn meithrin cysylltiad, gwydnwch, a gofaith.

Mae'r niferoedd yn adrodd cyfrolau. Mae dros 2.5 miliwn o oedolion wedi cymryd rhan mewn garddio cymunedol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac mae 14.7 miliwn arall yn dweud y byddent wrth eu boddau'n cymryd rhan. Mae nifer y gwirfoddolwyr ar gynnydd, ac mae'r egni'n amlwg. Serch hynny, mae yna heriau gwirioneddol yn ymddangos ochr y ochr â'r momentwm hwn. Mae sawl grŵp yn bryderus am eu dyfodol – gan wynebu rhwystrau fel cyllid cyfyngedig, ansicrwydd o ran mynediad at dir, a'r angen am fwy o gymorth a sgiliau.

Dyna pam mae'r adroddiad hwn yn bwysig. Mae Gofod i Dyfu yn gwneud mwy na dathlu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn unig – mae'n nodi argymhellion ymarferol, clir er mwyn helpu garddio cymunedol i ffynnu. O well cyllid a seilwaith i eiriolaeth a rhwydweithiau cryfach, dengys yr adroddiad yr hyn sydd ei angen i ddatgloi llawn botensial y mudiad hwn.

P'un a yw'n glwb ieuencid yn tyfu blodau i gartref gofal, neu'n gymdogion yn trawsnewid lawnt yn ardd gegin, mae'r mannau gwyrdd a rennir hyn yn ein helpu ni i fynd i'r afael â rhai o faterion mwyaf ein hoes – unigrwydd, newid yn yr hinsawdd, a cholli bioamrywiaeth. Ac maent yn gwneud hynny'n llawn llawenydd, creadigrwydd, ac ysbryd cymunedol.

Mae RHS yn falch o sefyll ochr yn ochr â miloedd o wirfoddolwyr, trefnwyr, a thyfwyr sy'n gwneud y mudiad yr hyn ydyw. Rydym wedi ymrwymo i'w helpu i dyfu – ac rydym yn estyn gwahoddiad i chi ymuno â ni. Dychmygwch bob cornel ddiffaith yn byrlymu o flodau haul ar gyfer peillwyr, perllysiau i gymudwyr a thomatos i'n plant.

Gyda'n gilydd, gallwn dyfu rhywbeth arbennig iawn.

Clare Matterson

Clare Matterson CBE

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyndeithas Arddwriaethol Frenhinol



Clare Matterson gyda chyd-wirfoddolwyr yn Wild About Campsea, gardd gymunedol leol Clare yn nwyrain Suffolk. Mae Clare yn wirfoddolwr rheolaidd yn yr ardd.

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae cymdeithas yn wynebu sawl argyfwng sy'n gysylltiedig â'i gilydd o gylch iechyd a llesiant, newid yn yr hinsawdd, dirywiad ym myd natur a bioamrywiaeth, ansicrwydd bwyd ac ansefydlogrwydd economaidd. Mae modd canfod datrysiadau pwerus i lawer o'r heriau hyn mewn gweithredu cymunedol, yn cynnwys tyfu a garddio cymunedol. Mae ymchwil yn dangos bod gan arddio cymunedol rôl hollbwysig o ran gwella iechyd a llesiant, uno cymunedau a dod â thyfu bwyd, byd natur a bioamrywiaeth yn ôl i'n trothwy. Mae garddio cymunedol yn bwysig, ond mae'r mudiad garddio cymunedol angen fframwaith cymorth ehangach, buddsoddiad a seilwaith cryfach i wireddu ei botensial.

Ar ddechrau 2025, aeth yr RHS ati i geisio deall graddfa, effaith ac anghenion grwpiau garddio cymunedol amrywiol y DU drwy gyflwyno'r Arolwg Garddio Cymunedol Cenedlaethol – y mwyaf o'i fath. Bwriad yr arolwg oedd archwilio statws grwpiau garddio cymunedol, ystyried eu heriau, deall eu cymhellion a chlywed yn uniongyrchol ganddynt pa gymorth y maent yn awyddus i'w weld gan y RHS, a chan sefydliadau eraill sy'n cefnogi grwpiau garddio cymunedol, a'r llywodraeth. Mae'r RHS yn diffinio grŵp garddio cymunedol fel unrhyw grŵp sy'n dod ynghyd o gylch garddio, neu sy'n cyd-arddio, y tu allan i erddi preifat a masnachol. Gallai hyn olygu grwpiau Prydain yn ei Blodau sy'n cynnal a chadw potiau plannu ar eu stryd fawr leol, perllan yn y parc lleol sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned, grwpiau o drigolion yn cyd-arddio mewn man a rennir ar ddatblygiad tai, neu'r rheiny sy'n gofalu am fannau mewn ysgolion, addoldai neu ysbytai. Mae'r adroddiad hwn felly'n cwmpasu'r ddau grŵp y mae garddio cymunedol yn brif bwrpas iddynt (65% o grwpiau) a'r rheiny sy'n cynnig garddio ymhlith sawl gweithgaredd neu wasanaeth (35%). Oni bai y nodir yn wahanol, mae'r canfyddiadau'n cyfeirio at y ddau fath o grŵp gyda'i gilydd.

Ar yr un pryd, mesurodd Arolwg Garddio Cynaliadwy'r RHS raddfa'r mudiad garddio cymunedol presennol yn ogystal â'r potensial i dyfu, gyda chanlyniadau pwerus: amcangyfrifwyd bod 2.5 miliwn o oedolion wedi garddio yn eu cymunedau yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, a mynegodd 14.7 miliwn o oedolion bod ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â mentrau garddio cymunedol.¹

Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau ymchwil hyn yn adrodd stori rymus o uchelgais, effaith a'r potensial i dyfu. Ym mhob rhan o'r DU, mae grwpiau garddio cymunedol yn trawsnewid iechyd, llesiant ac amgylchedd eu cymunedau gyda brwdfrydedd ac ymrwymiad nerthol. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn ehangu, a chanddynt uchelgais i wneud mwy er lles eu cymdogaethau. Mae yna awydd hefyd i gydweithio ar lefel genedlaethol i ddatblygu'r mudiad garddio cymunedol. Fodd bynnag, er bod gan grwpiau garddio cymunedol uchelgeisiau sylweddol, maent hefyd yn wynebu heriau sylweddol a rhwystrau sylweddol rhag datgloi eu potensial i dyfu – yn benodol o gylch cael mynediad at gyllid, capasiti gwirfoddolwyr, cymorth gweinyddol a sgiliau llywodraethu. I wirioneddol ffynnu, maent angen presenoldeb mwy cydlynol ac amlwg ar y llwyfan cenedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi pam mae garddio cymunedol yn bwysig ac yn ystyried sut gall y RHS, sefydliadau eraill sy'n cefnogi garddio cymunedol, llywodraethau cenedlaethol ac awdurdodau lleol gydweithio i wireddu potensial y mudiad garddio cymunedol.

Casgliadau a galwad i weithredu

Mae garddwyr cymunedol yn trawsnewid miloedd o fannau a esgeuluswyd yn ganolfannau llewyrchus o weithgarwch; boed mewn ysgolion, parciau, clybiau ieuenctid, ysbytai neu gartrefi gofal, mae mannau gwyrdd a rennir yn dwyn ynghyd cymunedau amrywiol ledled y DU. Fodd bynnag, er gwaethaf eu heffaith aruthrol – a'r miliynau o bobl sydd eisoes yn arddwyr cymunedol neu sydd awydd bod – mae llawer o erddi cymunedol yn wynebu dyfodol ansicr. Mae dros hanner y grwpiau garddio cymunedol yn bryderus dros eu dichonoldeb hirdymor, gydag un ym mhob pedwar yn bodoli ar gyllidebau sy'n llai na £500 y flwyddyn.² Mae grwpiau'n ymestyn pob ceiniog drwy uwchgylchu, ailgylchu a phenderfynoldeb llwyr; ond heb sicrhau cyllid a mynediad at dir, mae perygl i lawer o'r mannau ddiflannu, gan fynd â'r gwasanaethau hanfodol maent yn eu creu ar gyfer pobl, lleoedd a'r blaned gyda nhw.

Mae ymchwil y RHS yn dangos bod garddwyr cymunedol yn uchelgeisiol iawn ynghylch cael effaith ystyrion ac yn dangos creadigrwydd a gwydnwch anhygoel, gan gyflawni llawer gydag ychydig iawn o adnoddau; ac mae cyfle enfawr i ddatblygu, gydag 14.7 miliwn o oedolion yn dangos diddordeb mewn ymuno â mentrau garddio cymunedol.³ Fodd bynnag, os yw llawn botensial y mudiad garddio cymunedol am gael ei wireddu, mae angen i sefydliadau fel y RHS, llywodraethau ac awdurdodau lleol gydweithio i ddarparu fframwaith cymorth ehangach, buddsoddiad a seilwaith cryfach. Gyda'n gilydd gallwn feithrin dyfodol mwy cysylltiedig, gwyrddach.

Crynodeb o'r argymhellion

Argymhellion i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau garddio cymunedol

- 1** Dylai sefydliadau sydd â rôl genedlaethol a/neu ranbarthol mewn garddio cymunedol gydweithio'n agosach, creu ymgyrchoedd eirioli ar y cyd a datblygu strategaethau cyffredin ar gyfer cynrychioli lleisiau a phryderon y mudiad garddio cymunedol i lywodraethau a chyllidwyr ledled y DU.
- 2** Dylai sefydliadau sydd â rôl genedlaethol a/neu ranbarthol mewn garddio cymunedol weithio'n gydweithredol i hwyluso mwy o gyfleoedd rhannu sgiliau a rhwydweithio, gyda'r nod o gefnogi garddwyr cymunedol i atgyfnerthu eu sgiliau er mwyn creu'r newid gwyrdd y maent yn awyddus i'w weld yn eu hardaloedd lleol.

Argymhellion i lywodraethau cenedlaethol ledled y DU

- 3** Dylai llywodraeth y DU a llywodraethau'r gwledydd datganoledig ddod o hyd i gyfleoedd deddfwriaethol a pholisi i symud yr ymgyrch Gofod i Dyfu ymlaen, drwy fewnosod gerddi cymunedol ym mholisi cynllunio cenedlaethol fel seilwaith o bwysigrwydd strategol.
- 4** Dylai llywodraeth y DU a llywodraethau'r gwledydd datganoledig ymgynghori ac ymgysylltu â'r sector garddio cymunedol i sicrhau bod garddio cymunedol yn cael ei integreiddio yn y meysydd a'r strategaethau polisi lle mae modd iddo chwarae rôl allweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Dylai syniadau am Swyddfa ar Gyfer Mannau Gwyrdd Llywodraeth y DU gael eu datblygu a'u hyrwyddo.
- 5** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon gydnabod y rôl y mae garddio – a garddio cymunedol yn benodol – yn ei chwarae o ran adfer byd natur, a nodi sut byddant yn cefnogi gwaith garddwyr cymunedol i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur.

Argymhellion i lywodraeth leol

- 6** Dylai awdurdodau lleol ystyried sut gallai creu strategaeth leol ar gyfer garddio cymunedol neu ymgorffori garddio cymunedol i strategaethau presennol (fel Strategaethau Datblygu Gofodol) eu helpu i gyflawni ar eu blaenoriaethau polisi i drigolion lleol.
- 7** Dylai awdurdodau lleol ystyried sut allent gyflawni ar eu blaenoriaethau polisi drwy fabwysiadu'r fenter Hawl i Dyfu.

Argymhellion i gyllidwyr


- 8** Dylai cyllidwyr sy'n cefnogi seilwaith gwyrdd adolygu eu cyfleoedd grant yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae llawer o erddi cymunedol nad ydynt yn elusennau cofrestredig ac o ganlyniad gallant fod yn anghymwys ar gyfer nifer o ffynonellau cyllid o dan y meini prawf cyfyngol presennol; yn aml, mae rhwydweithiau seilwaith a sefydliadau mwy mewn angen dybryd am gyllid referniw cynaliadwy yn ogystal â chyfleoedd cyfalaf; ac mae'r holl grwpiau garddio cymunedol angen gweld prosesau ymgeisio a disgwyliadau adrodd llai llym gan gyllidwyr.



Mae angen i RHS, y sefydliadau eraill sy'n cefnogi twf cymunedol a'r llywodraeth – yn genedlaethol ac yn lleol – godi ein huchelgeisiau torfol yn y maes hwn. Sut allwn ni gydweithio'n well i gefnogi'r mudiad garddio cymunedol i dyfu a chyflawni ei botensial ar gyfer pobl, lleoedd a'r blaned?


Ystadegau allweddol

Tybir bod **2.5 miliwn** o oedolion wedi garddio yn eu cymunedau yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.⁴



Mae **14.7 miliwn** o oedolion yn dangos diddordeb mewn ymuno â mentrau garddio cymunedol.⁵

Dyma'r prif gymhellion ar gyfer grwpiau garddio cymunedol:



Mae **76%** o erddi cymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, a **24%** mewn ardaloedd gwledig.⁷

Mae dros hanner y gerddi cymunedol wedi'u sefydlu ar dir sy'n berchen i awdurdod lleol.⁸




Mae **30%** o grwpiau y mae garddio cymunedol yn brif bwrpas iddynt yn gweithredu ar lai na £500 y flwyddyn.¹¹

47%

Mae garddio cymunedol yn tyfu – mae bron i hanner y grwpiau'n adrodd cynnydd mewn niferoedd gwirfoddolwyr. ⁹



Mae dros hanner y grwpiau garddio cymunedol yn bryderus am eu dyfodol.¹⁰





Graddfa ac effaith garddio cymunedol yn y DU

Ar hyd a lled y DU, yn ein canolfannau trefol, trefi, pentrefi a chefn gwlad fel ei gilydd, mae miliynau o bobl yn dod at ei gilydd, gan godi eu tryweli a gfael ynddi i drawsnewid eu cymunedau. Boed a ydynt wedi'u cymell gan awydd am gysylltiad cymunedol, brwdfrydedd dros arddio sy'n gyfeillgar i'r blaned, tyfu bwyd i'w rannu gyda chymdogion neu brydferthu mannau cyhoeddus, mae garddwyr cymunedol yn cymryd y cam i drawsnewid miloedd o ddarnau o dir diffaith yn ganolfannau llewyrchus i bobl a'r blaned.

Mae garddio cymunedol yn y DU wedi cynyddu a datblygu dros amser, gyda mentrau fel Prydain yn ei Blodau – a ddathlodd 60 mlynedd yn 2024 – yn chwarae rhan hollbwysig yn ei datblygiad. Mae'r mudiad garddio cymunedol bywiog ac amrywiol sy'n bodoli heddiw'n cysylltu pobl o bob oed a chefnidir gyda byd natur ar garreg eu drws; p'un a ydynt wedi'u lleoli mewn canolfannau cymunedol, ar y stryd fawr, mewn clybiau ieuencid neu ar ystadau o dai, mae garddio cymunedol yn uno cymdogion ar draws y DU ac yn creu sawl budd i unigolion a chymdeithas.

Y mudiad garddio cymunedol yn y DU: trosolwg

Graddfa garddio cymunedol yn y DU

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r tro cyntaf i lwybr graddfa a thwf mudiad garddio cymunedol y DU gael ei fapio. Tybir bod dros 2.5 miliwn o oedolion wedi cymryd rhan mewn garddio cymunedol dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae oddeutu 1.5 miliwn o oedolion yn dweud eu bod yn garddio yn eu cymunedau ar hyn o bryd fel rhan o grŵp wedi'i drefnu.¹² Mae bron i hanner (47%) y grwpiau garddio cymunedol wedi adrodd cynnydd mewn niferoedd gwirfoddolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.¹³

Mae'r ymchwil hon yn adrodd stori am botensial sydd heb ei gyffwrdd i dyfu'r mudiad garddio cymunedol ymhellach, gydag 14.7 miliwn o oedolion yn dweud bod ganddynt awydd bod yn rhan o fentrau garddio cymunedol.¹⁴

Mae pob math o grwpiau garddio cymunedol i'w cael: Disgrifiodd 34% eu hunain fel gerddi cymunedol; 12% fel rhandiroedd gydag ardaloedd cymunedol; 12% fel gerddi cymunedol o fewn parciau; 6% fel gerddi ysgol; ac roedd eraill yn nodi eu bod yn rhannu potiau plannu ar y stryd, yn rhannu ardaloedd mewn datblygiadau tai neu'n erddi canolfannau iechyd.¹⁵

Beth mae gerddi cymunedol yn ei dyfu? ¹⁶

Mae 69% yn tyfu blodau



Mae 35% yn tyfu perlysiau



Mae 61% yn tyfu llysiau



Mae 33% yn tyfu coed ffrwythau



Mae 35% yn tyfu coed ffrwythau



Mae 23% yn tyfu coed eraill



Ble mae gerddi cymunedol wedi'u lleoli a phwy sy'n berchen ar y tir?

Mae'r mwyafrif (76%) o erddi cymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, gyda 24% wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Mae 35% o grwpiau'n garddio ar fwy nag un safle yn eu cymuned, a'r nifer cyfartalog o safleoedd i'r rhai sy'n garddio ar sawl safle yw pump. Mae 60% o safleoedd garddio cymunedol yn gallu cael eu defnyddio gan y cyhoedd drwy'r adeg.¹⁷

3% yn unig o erddi cymunedol sy'n berchen ar eu safleoedd eu hunain, sy'n golygu bod y mwyafrif yn ddibynnol ar brydlesi a threfniadau partneriaeth. Mae dros hanner (56%) y gerddi cymunedol wedi'u lleoli ar dir sy'n berchen i awdurdod lleol, gan wneud llywodraeth leol yn bartner a rhanddeiliad allweddol yn y mudiad garddio cymunedol.¹⁸

Mae tîrfeiddianwyr preifat hefyd yn bartneriaid pwysig, gyda 10% o erddi cymunedol wedi'u lleoli ar dir preifat; ac mae sefydliadau cyhoeddus fel ysgolion, rheilffyrdd a'r GIG hefyd yn chwarae rôl, gyda 10% o erddi cymunedol wedi'u lleoli ar eu tir.¹⁹

Sut mae grwpiau garddio cymunedol wedi'u strwythuro?

Mae grwpiau garddio cymunedol yn cynrychioli ystod o strwythurau rheoli a llywodraethu, gan gynnwys grwpiau sy'n cael eu harwain yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, sefydliadau gyda thîm bach o staff, a sefydliadau seilwaith mwy – y mae rhai ohonynt yn gweithredu fel rhwydweithiau o gymorth i grwpiau llai. Mae'n nodedig mai 14% yn unig o'r grwpiau hynny y

mae garddio cymunedol yn brif bwrpas iddynt, sy'n elusennau cofrestredig. Mae mathau eraill o strwythur sefydliadol (41%) yn cynnwys cysylltiad ag elusen arall, CIC a Chymdeithasau Preswylwyr. Nid oes gan oddeutu 30% o grwpiau gyfrif banc, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus nac unrhyw bolisiau sefydliadol – gan amlygu pa mor anffurfiol yw rhai o'r grwpiau hyn yn eu gweithrediadau²⁰

Mae'r strwythurau anffurfiol hyn yn helpu i gadw'r baich gweinyddol yn ysgafn; fodd bynnag, mae gweithredu y tu allan i seilwaith elusen sefydledig y DU yn golygu bod y rhan fwyaf o grwpiau wedi'u heithrio rhag gwneud cais am nifer o gyfleoedd cyllid ac nid ydynt yn gymwys ar gyfer Rhodd Cymorth a mathau eraill o ryddhad treth. Mae'n bosibl eu bod hefyd yn ei chael hi'n fwy anodd i sefydlu partneriaethau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau'r awdurdod lleol a'r llywodraeth genedlaethol.

Beth yw'r cymhellion ar gyfer garddwyr cymunedol?

Mae'r mwyafrif helaeth o erddi cymunedol yn dweud eu bod yn bodoli er mwyn dwyn eu cymuned ynghyd (85%), bod o fudd i lesiant corfforol (80%) a meddylol (79%) y rhai sy'n cymryd rhan, ac annog mwynhad o arddio (79%). Roedd gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd bywyd gwylt (76%) a chreu amgylcheddau glanach, gwyrddach a mwy deniadol (71%) hefyd yn gymhellion pwysig i lawer o arddwyr cymunedol.²¹ Roedd ennill cydnabyddiaeth yn ffactor cymhelliant cymharol isel i erddi cymunedol, gydag 16% yn unig yn mynegi eu bod yn cael eu cymell yn fawr drwy ennill cydnabyddiaeth.²²



Gyda pha sefydliadau a rhwydweithiau mae gerddi cymunedol yn gweithio?

Mae sawl gardd gymunedol yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol (47%), lleoliadau blynyddoedd cynnar neu ysgolion cynradd (42%), elusennau (32%) a busnesau lleol (30%). Mae grwpiau'n ymgysylltu hefyd â meithrinfeydd planhigion neu ganolfannau garddio lleol (27%), grwpiau garddwriaethol lleol eraill (26%), grwpiau ieuencid (25%), ysgolion uwchradd (21%) a darparwyr meddygol fel meddygfeydd (20%).²³

Unwaith eto, canfuwyd bod awdurdodau lleol yn rhanddeiliaid hanfodol gan eu bod, i lawer o grwpiau, yn cynnig mwy na chymorth ariannol, gan gynnig cymorth ymarferol yn aml fel darparu compost, planhigion a naddion pren yn ogystal â helpu gyda thasgau cynnal a chadw. Dywedodd nifer o grwpiau eu bod yn gallu defnyddio tir y cyngor am gost isel neu'n ddi-gost. Mae cynghorau'n gweithredu fel hwyluswyr hefyd, gan rannu cyfleoedd ariannu, cynghori ar grantiau a chydlynu ar draws adrannau. Mae staff awdurdod lleol yn cynnig arbenigedd ar reoli, bioamrywiaeth a diogelwch. Yn aml, mae cynghorwyr lleol hefyd yn cefnogi prosiectau drwy ymweliadau safle a chyllidebau disgresiynol. Roedd cymorth ychwanegol gan awdurdodau lleol yn cynnwys cymorth gweinyddol, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a rhwydweithio.

Mynegodd nifer o grwpiau garddio cymunedol eu bod yn awyddus i weithio'n fwy agos â sefydliadau a rhwydweithiau lleol eraill yn y dyfodol, gan gynnwys meithrinfeydd planhigion neu ganolfannau garddio lleol (31%), colegau garddwriaethol (27%), darparwyr meddygol (25%), grwpiau garddwriaethol lleol eraill (24%), ysgolion uwchradd (23%) a grwpiau ieuencid (23%).²⁴

“Mae pobl yn defnyddio'r grŵp fel lle i fwrw eu bol ac ymlacio.”

Pam mae garddio cymunedol yn bwysig i bobl, lleoedd a'r blaned: ciplun

Mae'r rhwydwaith bywiog hwn o dros filiwn o arddwyr cymunedol yn creu buddion lawer i bobl, lleoedd a'r blaned, yn benodol mewn meysydd polisi a fu'n flaenoriaethau ers tro i'r llywodraeth: gwella iechyd a llesiant pobl, cydlyniant cymunedol ar sail lle, cynyddu mynediad at fyd natur, a chyflawni targedau amgylcheddol fel cynyddu bioamrywiaeth.

Mae'r corff ymchwil sy'n cyfeirio at fuddion ac effaith garddio cymunedol yn parhau i dyfu; mae'r ciplun hwn yn cynnig trosolwg bras o pam mae garddio cymunedol yn bwysig.

• Cysylltiadau a hygyrchedd cymunedol

Mae gerddi cymunedol yn cyflawni mwy na meithrin planhigion – maent yn meithrin balchder, pwrpas a chysylltiad. Mae grwpiau garddio cymunedol yn grymuso pobl gyda sgiliau newydd, ac yn gwasanaethu fel lle ar gyfer cyfnewid diwylliannol, dysgu rhwng cenedlaethau a chyfeillgarwch.²⁵ Maent yn cynnig amgylchedd croesawgar i bobl ddechrau ar eu taith arddio, neu berthyn.

Prif bwrpas grwpiau garddio cymunedol yw dod â phobl at ei gilydd, gyda thros hanner yn dweud eu bod yn bwriadu mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol.²⁶ Roedd llawer o'r bobl y buom yn sgwrsio â hwy'n fwyaf balch o'r ffyrdd y llwyddodd eu grwpiau i ymgysylltu â thrigolion unig, creu gweithgareddau rhyng-genhedlaeth, datblygu rhwydweithiau cefnogol a darparu man croesawgar i gysylltu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn 2025, gydag ymchwil ddiweddar yn dangos bod hanner pobl Prydain yn teimlo diffyg cyswllt â'r gymdeithas o'u cwmpas.²⁷ Mae bron i naw ym mhob deg (88%) oedolyn ifanc rhwng 18 a 24 oed yn dweud eu bod yn profi unigrwydd i ryw raddau²⁸ ac mae bron i filiwn o bobl hŷn yn y DU yn dweud eu bod yn unig “yn aml”.²⁹

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos y gall tyfu cymunedol helpu i fynd i'r afael â'r unigedd cymdeithasol hwn. Er enghraifft, roedd data'r RHS yn awgrymu bod garddwyr cymunedol yn edrych ar ddylanwad garddio ar iechyd cymdeithasol 17% yn fwy cadarnhaol na garddwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn garddio cymunedol.³⁰ Elfen allweddol o gydlyniant cymunedol yw sicrhau bod gerddi cymunedol mor gynhwysol â phosibl ac mae grwpiau garddio cymunedol yn gweithio ar fynd i'r afael â hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae 67% o erddi cymunedol wedi gosod llwybrau hygyrch, ac mae >

“Rydym newydd orffen gosod potiau plannu hygyrch er mwyn galluogi pobl i arddio heb iddynt orfod penlinio neu blygu’n isel. Mae’n gyffrous, rydym wedi bod yn gweithio tuag at hyn ers amser.”

gan dros hanner (51%) welyau plannu uwch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a’r rhai â gwahanol anghenion symudedd. Dywedodd traean (33%) ohonynt eu bod yn gobeithio darparu llwybrau ac offer hygyrch o fewn y ddwy flynedd nesaf er mwyn gwneud garddio’n haws i bawb.³¹

Mae’r awydd hwn i weithio ar gynhwysiant hefyd yn arwain at ddenu diddordeb grwpiau gwirfoddol amrywiol. Dywedodd 39% o grwpiau garddio cymunedol eu bod am fynd ati’n rhagweithiol i recriwtio gwirfoddolwyr o grwpiau a rhwydweithiau diwylliannol amrywiol; roedd 37% yn estyn allan i bobl ifanc a sefydliadau ieuencid ac roedd 34% yn ymgysylltu â sefydliadau sy’n cynrychioli pobl hŷn.³²

• Creu lleoedd a diogelwch

Drwy drawsnewid mannau cyffredin, mae gerddi cymunedol yn meithrin ymdeimlad cryfach o le – gan wneud cymdogaethau’n wyrddach ac yn aml yn fwy diogel. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl ymchwil wedi canfod bod mwy o fannau gwyrdd o ansawdd yn gysylltiedig â chyfraddau troseddau is mewn ardaloedd trefol; er enghraifft, roedd ymchwil yn 2022 a ddadansoddodd ddata o 301 o ddinasoedd mawr yn UDA wedi dod i’r casgliad bod cysylltiad rhwng mwy o fannau gwyrdd ac achosion is o droseddau treisgar a dwyn eiddo.³³ Cynhaliodd Prifysgol Cornell brosiect ymchwil yn 2020 a fu’n edrych ar draws sawl astudiaeth ac a ddaeth i’r canlyniad bod gan fannau gwyrdd sydd wedi’u cynnal a’u cadw’n dda y potensial i leihau troseddau treisgar, a gwneud cymunedau’n fwy diogel a thrigolion yn fwy iach.³⁴ Yn ôl astudiaeth yn 2018 a oedd yn canolbwyntio ar Glasgow, mae gerddi cymunedol yn creu mannau grymusol a chynhwysol lle gall grwpiau difreintiedig gysylltu â byd natur a’i gilydd – gan feithrin urddas, gwydnwch ac ymdeimlad cyffredin o le ymhlith heriau cymdeithasol ac economaidd.³⁵

• Iechyd a llesiant

Mae’r DU yn wynebu argyfwng iechyd a llesiant cynyddol sy’n gwaethygu o ganlyniad i ddiffyg mynediad at fyd natur a mannau gwyrdd.³⁶ Mae llawer o bobl – yn enwedig o fewn cymunedau ymylol neu gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n



ddigonol – wedi’u datgysylltu oddi wrth y byd naturiol (mae oedolion y DU yn y 59^{ain} safle allan o 65 gwlad o safbwynt teimlo cysylltiad â byd natur³⁷), sy’n cyfrannu at lefelau cynyddol o anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl gwael. Mae astudiaeth a gynhaliwyd yn 2024 wedi canfod bod cynnydd o 1% mewn glaswelltir yn gysylltiedig â gostyngiad o 37% yn y cyfraddau marwolaeth ataladwy blynyddol yng nghymdogaethau mwyaf difreintiedig Lloegr.³⁸

Yng nghyd-destun straen aruthrol ar ein GIG, ynghyd â’r flaenoriaeth uchel a roddir gan y llywodraeth ar wella iechyd cyhoeddus – yn benodol drwy ddulliau ataliol a lleol³⁹ – mae tystiolaeth yn cyfeirio mwyfwy at werth buddsoddi mewn mannau gwyrdd cyhoeddus, fel gerddi cymunedol, i gyflawni canlyniadau iechyd a llesiant mesuradwy.⁴⁰

I’r un ym mhob wyth aelwyd (12%) ym Mhrydain⁴¹ nad oes ganddynt ardd gartref, mae’r mannau cymunedol hyn yn hanfodol i gael mynediad at fuddion iechyd a llesiant y byd naturiol. Mae sicrhau mynediad cyfartal at fyd natur drwy fannau tyfu cymunedol yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, o ystyried bod pobl Ddu yn Lloegr bron i bedair gwaith yn fwy tebygol o fod heb ardal awyr agored preifat gartref na phobl wyn (37% o’i gymharu â 10%).⁴² »

“Dyma fy lle diogel ymhlith y planhigion.”

Ymddiriedolaeth Datblygu Cranhill: Plannu hadau dyfodol mwy llewyrchus ar gyfer cymunedau Glasgow

Elusen o'r Alban yw Ymddiriedolaeth Datblygu Cranhill (CDT) sydd wedi'i lleoli yng ngogledd-ddwyrain Glasgow gyda rhaglenni'n amrywio o gymorth cyflogadwydd i weithgareddau llesiant. Mae CDT yn gonglfaen cymunedol pwysig sy'n cefnogi oddeutu 3,000 o bobl bob blwyddyn, gan ymateb i faterion cymhleth yn cynnwys tlodi ac allgáu cymdeithasol a chyfrannu at adfywio Cranhill, ardal a brofodd ddegawdau o galedi economaidd. Ariennir CDT gan Gyngor Dinas Glasgow a chaiff ei chefnogi gan bartneriaid sy'n cynnwys y RHS, Sefydliad Wheatley a Police Scotland.

Mae Fiona Duncan, Arweinydd Iechyd a Llesiant, yn gofalu am brosiectau seiliedig ar fwyd yr Ymddiriedolaeth – yn cynnwys Gardd Gymunedol Cranhill, a ddaeth yn achubiaeth i'r gymuned. Mae'r ardd yn hafan i fyd natur mewn gwerddon drefol, gyda gwelyau plannu uwch wedi'u hamgylchynu gan dri bloc mawr o fflatiau. Gyda'i gilydd, mae'r gymuned yn tyfu a meithrin ystod o ffrwythau fel llus, mafon a mafonfwyar. Mae'r twnnel polythen yn orlawn o domatos a basil, a thu allan mae ganddynt doreth o gennin, bresych, cêl a moron. Mae blodau haul a blodau gwyllt yn gymorth i beillwyr lleol.

Daw'r ardd â phobl ynghyd, waeth p'un a ydynt yn ymddiddori mewn garddio neu dim ond awydd paned o de a sgwrs mewn amgylchedd heb feirniadaeth. Mae pobl o bob oed a chefnidir – yn cynnwys ceiswyr lloches a phobl mewn llety dros dro – yn cydweithio, gan helpu i chwalo rhwystrau. Mae'r ardd nid yn unig yn groesawgar a chynhwysol ond hefyd yn hygyrch – mae hi i'w gweld o ffenestri fflatiau a phan mae preswylwyr yn cerdded heibio i gyrraedd y safle bws.

Mae cymdogaion nad oedd erioed wedi cyfarfod ei gilydd o'r blaen wedi creu cyfeillgarwch clos diolch i'r gweithdai garddio. Er bod Frank, un o'r trigolion lleol, yn newydd i arddio, sylweddolodd yn fuan ei fod yn ffordd o gyfarfod pobl. "Mae 'na bobl hyfryd yma, felly rwyf wedi bod yn dod bob wythnos ers dros flwyddyn, ac ry'n ni'n defnyddio'r bwyd sy'n cael ei dyfu gennym yn y clwb coginio." Ategodd un o'r cyfranogwyr eraill, "Mae'r ardd yn rhywle lle gallwch ddod i anghofio am eich pryderon am ychydig."

Mae'r lle'n parhau i dyfu, gyda chynlluniau i drawsnewid cae pêl-droed segur yn ardd fwy sydd wedi'i chyd-ddylunio gan y gymuned. Serch hynny, mae heriau'n dal i fod. Mae prinder lle dan do yn cyfyngu tyfu yn y gaeaf, ac mae gwirfoddolwyr angen cefnogaeth i ddysgu sut i feithrin gwahanol blanhigion. Er mwyn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, mae'r grŵp yn cynyddu ei gapasiti cynaeafu dŵr glaw, yn cyflwyno system gompostio ac yn newid ychydig ar ei galendr plannu.

Mae stori Cranhill yn dangos sut mae garddio cymunedol yn meithrin cydlyniant cymdeithasol, yn gwella iechyd ac yn datblygu gwydnwch. Gyda gwell cefnogaeth, gallai grwpiau fel Cranhill gyflawni mwy fyth.

Astudiaeth achos



Tyfwyr Gardd Gymunedol Cranhill

"Ry'ch chi'n gweld pobl ar eu hisaf, ond ry'ch chi hefyd yn eu gweld nhw'n tyfu'n gryfach. Pan mae ganddyn nhw eu dwylo yn y pridd, mae eu gofidion yn diflannu, ac maen nhw'n dysgu sgil newydd a fydd yn ei helpu nhw a'r bobl o'u hamgylch."

– Angela Smith, Cynghorydd Allgymorth Cymunedol RHS

• Mynd i'r afael â'r argyfyngau byd natur a hinsawdd

Mae grwpiau garddio cymunedol yn rhagori mewn goruchwyliaeth amgylcheddol, gan drawsnewid mannau a esgeuluswyd yn gynefinoedd bywiog i fywyd gwyllt drwy arferion cynaliadwy yn aml. Mae ymchwil newydd y RHS yn dangos bod garddwyr cymunedol yn fwy tebygol na garddwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn garddio cymunedol o deimlo'n bryderus am broblemau amgylcheddol oherwydd y canlyniadau ar gyfer byd natur, eu hunain ac eraill.⁴³ Mae astudiaethau hefyd yn dangos bod gerddi cymunedol ymhlith y cynefinoedd trefol mwyaf bioamrywiol.⁴⁴ O ganlyniad, mae gan erddi cymunedol rôl dyngedfennol i'w chwarae o ran cefnogi bywyd gwyllt a'r blaned, gyda phlanhigion sy'n blodeuo gydol y flwyddyn yn gweithio fel coridorau hanfodol i beillwyr – yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle mae mannau gwyrdd yn brin.

Cyflawniad arwyddocaol a nodwyd gan sawl grŵp oedd eu hymrwymiad i gyfoethogi'r amgylchedd a hyrwyddo bioamrywiaeth – gan gynnwys gweithio i wella ansawdd y pridd, creu cynefinoedd ar gyfer byd natur a gwreiddio arferion garddio cynaliadwy; mae gan 41% o erddi cymunedol bwl, mae 78% yn compostio, mae 59% yn casglu dŵr glaw ac mae 74% yn osgoi mawn.⁴⁵

Roedd gwneud mwy i gyfoethogi bioamrywiaeth wedi'i nodi'n uchelgais hollbwysig i nifer o grwpiau garddio cymunedol, gydag enghreifftiau niferus yn cyfeirio at ddyheu am nodweddion fel pyllau, gwarchodfeydd gwenyn neu fwy o ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt.⁴⁶

Mae gan arddio cymunedol rôl hanfodol mewn gweithredu dros yr hinsawdd dan arweiniad y gymuned, a gall hyn agor y drws i weithredu amgylcheddol pellach.⁴⁷ Mae'n cysylltu cynaliadwyedd amgylcheddol â bywyd bob dydd ac yn cryfhau cysylltiadau emosiynol â byd natur. Gall gerddi cymunedol hefyd ategu addasiad, lliniariad a gwydnwch yr hinsawdd.⁴⁸

O ganlyniad, mae posibilrwydd cryf y gall gerddi cymunedol fod o gymorth i gyflawni nodau'r llywodraeth ar gyfer yr amgylchedd a gwyrddu trefol – yn cynnwys y prif ymrwymiad yng Nghynllun Gwella Amgylcheddol Llywodraeth y DU y "dylai pawb fyw o fewn 15 munud ar droed o fan gwyrdd neu las". Yn gynharach eleni, adroddodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) bod y llywodraeth yn "gwyro oddi ar y llwybr i raddau helaeth" pan mae'n dod at gyflawni saith o'r meysydd nodau a nodir yn y Cynllun Gwella Amgylcheddol, yn cynnwys y prif nod o 'gyflawni planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus'.⁴⁹ Gall cefnogi garddwyr cymunedol i ehangu eu mannau tyfu fod yn rhan bwerus o ddatrys yr argyfyngau hinsawdd a byd natur.

• Addysg a datblygu sgiliau

Mae garddwyr cymunedol yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd er mwyn grymuso eraill. Mae hyn yn cynnwys addysgu plant am darddiad eu bwyd, cynnal gweithdai ar gompostio a garddio cynaliadwy a chynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu sgiliau newydd.⁵⁰ Mae hyn yn denu diddordeb amrywiaeth eang o grwpiau oed – o fabanod i oedolion hŷn – ac mae'n pwysleisio ymrwymiad i ddysgu gydol oes a meithrin cysylltiad dyfnach â byd natur ar draws y gymuned.



Mae'r ciplun hwn o effeithiau a buddion garddio cymunedol i bobl, lleoedd a'r blaned yn mapio yn erbyn blaenoriaethau dilynol y DU gyfan a'r llywodraethau datganoledig ynghylch iechyd a llesiant, cydlyniant cymdeithasol, gwyrddu trefol, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd; yn amlwg, gall garddwyr cymunedol a gerddi cymunedol chwarae rhan allweddol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at fynd i'r afael â rhai o'r meysydd polisi blaenoriaeth hyn. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol rhag symud ymlaen yn dal i fod.



Yr heriau sy'n wynebu garddio cymunedol

Mae garddwyr cymunedol yn anelu at gynaliadwyedd a hirhoedledd – gan roi'r pwyslais ar gynyddu cyfranogiad gwirfoddolwyr, sicrhau digon o le, cyllid ac adnoddau a gwella bioamrywiaeth a'r buddion amgylcheddol ymhellach. Maent yn dyheu am gryfhau eu dylanwad ar y gymuned, ac mae nifer yn dymuno ehangu eu seilwaith a gwella hygyrchedd; ond mae'r uchelgeisiau hyn yn aml yn cael eu cyfyngu gan yr heriau a nodir isod.

Er gwaethaf gwerth aruthrol yr hyn a wnânt, mae llawer o fannau tyfu cymunedol yn wynebu dyfodol ansicr; dywedodd 56% o grwpiau garddio cymunedol eu bod yn bryderus ynghylch parhad eu grŵp.⁵¹ Mae cael mynediad at gyllid a dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau priodol i wneud cais am gyllid yn broblemau beunyddiol o hyd, ac mae denu a chadw digon o wirfoddolwyr yn her sylweddol i sawl grŵp. Mae grwpiau garddio cymunedol angen cymorth i barhau'n gynaliadwy mewn cyfnodau heriol, gyda grwpiau mwy sydd wedi buddsoddi mewn staff cyflogedig ac effaith gymdeithasol yn teimlo fwyaf dan bwysau.⁵²

Ariannu

Mae cael mynediad at gyllid priodol yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol, gyda llawer o grwpiau'n mynegi rhwystredigaeth yn benodol dros effaith toriadau'r cyngor a phwyslais cyllidwyr ar grantiau dechrau busnesau yn hytrach na chostau staffio a chynnal a chadw parhaus.⁵³

Mae bron i draean (28%) o grwpiau garddio – mae hyn yn cynyddu i 30% ar gyfer grwpiau y mae garddio cymunedol yn brif bwrpas iddynt – yn gweithredu ar lai na £500 y flwyddyn. Roedd hyn yn fwy fyth ymhlith grwpiau a ddywedodd nad oeddent yn rhan o unrhyw rwydweithiau ehangach – ac o'r rhain, fe wnaeth 33% adrodd incwm llai na £500 y flwyddyn. Roedd grwpiau garddio cymunedol prif bwrpas gyda staff cyflogedig, sy'n cynnig garddwriaeth therapiwtig – 7% o gyfanswm y grwpiau – yn sylweddol fwy tebygol o adrodd incymau dros £20,000. Serch hyn, nhw oedd yr is-set oedd fwyaf pryderus am eu parhad hirdymor.⁵⁴ Roedd sefydliadau garddio cymunedol mwy gyda chapasiti staff cyflogedig yn benodol o bryderus ynglŷn â diffyg ffynonellau cynaliadwy o gyllid reffeniw i'w galluogi nhw i ddal ati; roedd rhai mewn perygl o golli eu staff a bod ar fin cau os na fyddai modd dod o hyd i gyllid reffeniw dibynadwy.

“Mae'n anodd dod o hyd i'r cyfleoedd ariannu. Nid oes gennym lawer o fynediad na dealltwriaeth o le i fynd ar gyfer y pethau hyn.”



Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gerddi cymunedol yn greadigol yn eu hymdrechion codi arian ac yn codi arian mewn amrywiaeth o ffyrdd – yn cynnwys drwy grantiau ac ymddiriedolaethau (53%), digwyddiadau codi arian (48%) ac adroddodd nifer sylweddol o grwpiau eu bod wedi derbyn cymorth ariannol gan awdurdodau lleol (36%).⁵⁵

O ran heriau ariannu parhaus, bu i 24% o grwpiau ddatgan nad oeddent yn gwybod lle i ddod o hyd i gyfleoedd cyllid priodol. Roedd dod o hyd i wirfoddolwyr gyda'r amser a'r sgiliau i ategu ceisiadau cyllid hefyd yn rhwystr allweddol i ddatblygiad y grwpiau. Mynegodd grwpiau awydd amlwg am ffyrddiau ariannu mwy hygrych a hyblyg, yn ogystal â gwell cefnogaeth ac arweiniad o ran dod o hyd iddynt a chael mynediad atynt.⁵⁶ Amlygwyd rhai protocolau adrodd cymhleth a gofynion gweinyddu sydd yn rhy feichus, ac yn anghymesur â lefel y grantiau, fel rhwystrau sylweddol rhag cael cyllid.

Capasiti staff a gwirfoddolwyr

Nid oes gan y mwyafrif (74%) o grwpiau garddio cymunedol unrhyw staff cyflogedig. I'r grwpiau hynny y mae garddio cymunedol yn brif bwrpas iddynt, mae hyn yn codi i 82% – maent yn bodoli'n llwyr oherwydd brwdfrydedd, ymrwymiad a gwaith caled gwirfoddolwyr.⁵⁷

Y nifer cymedrig o wirfoddolwyr rheolaidd oedd 16 ar draws y grwpiau garddio cymunedol a holwyd. Yn galonogol, roedd bron i hanner (47%) y grwpiau wedi adrodd cynnydd mewn niferoedd gwirfoddolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf – sy'n cyfleu bod diddordeb mewn garddio cymunedol yn parhau ledled y DU.⁵⁸

Fodd bynnag, roedd llawer wedi adrodd problemau dod o hyd i wirfoddolwyr gyda'r amser a'r sgiliau angenrheidiol. Thema oedd yn amlygu ei hun dro ar ôl tro oedd yr anhawster ynghylch sicrhau cysondeb

o ran capasiti gweinyddol ac arweinyddiaeth, gan arwain yn aml at ychydig o unigolion yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb. Cafodd tasgau gweinyddol yn benodol (ar gyfartaledd, mae gan grwpiau bedwar unigolyn sy'n fodlon ymgymryd â gwaith gweinyddol) eu hadnabod fel problem – megis dod o hyd i gyfleoedd ariannu a'u cymhwyso, cysylltu â'r cyngor a busnesau lleol, hyrwyddo gwaith y grŵp a threfnu digwyddiadau. Caiff hyn ei ddwysáu gan ddiffyg sgiliau cyfryngau cymdeithasol a marchnata i godi ymwybyddiaeth a denu cyfranogwyr newydd. Heb i'r fath gapasiti fod ar gael, mae llawer o grwpiau garddio cymunedol yn cael eu hatal rhag ehangu eu gweithgareddau ac allgymorth; a rhag cyflawni eu llawn botensial ar gyfer eu cymuned leol yn y pen draw.⁵⁹

Roedd y grwpiau gyda staff cyflogedig wedi tynnu sylw at y diffyg cyfleoedd i ddatblygu gyrfa ddichonadwy yn y sector garddio cymunedol; roedd swyddi'n brin, cyflogau'n anghydnaws â chostau byw, a nifer y llwybrau cynnydd yn gyfyngedig. Roedd llawer o grwpiau o'r farn bod angen i'r llwybr garddwr cymunedol proffesiynol gael ei werthfawrogi'n well gan gyllidwyr a'i gefnogi'n well gan y sector i ddod yn opsiwn gyrfa mwy dichonadwy, yn enwedig i bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu.

Yn olaf, mae natur fyrhoedlog cymunedau mewn rhai ardaloedd yn cyflwyno her o ran meithrin ymgysylltiad hirdymor a pharhad gwirfoddolwyr; ac mae sawl grŵp wedi amlygu'r heriau sy'n gysylltiedig â chronfa o wirfoddolwyr sy'n heneiddio a'r anhawster o ran denu cenedlaethau ieuengach, gan arwain at ddibynadwydd na ellir mo'i gynnal ar lond llaw o unigolion.⁶⁰

Mynediad cyfartal at le i dyfu hirdymor

Mae mannau gwyrdd a rennir mewn llawer o ardaloedd trefol o ansawdd gwael, ac yn aml gwneir defnydd annigonol o'r tir neu mae'n wag, yn anghyfartal o ran mynediad neu'n cael ei reoli'n wael – sy'n golygu na wneir y mwyafrif o'r cyfleoedd ar gyfer tyfu cymunedol teg o bell ffordd. Pan wneir defnydd o dir cynhyrchiol, mae hyn yn aml yn gymhleth a di-drefn.

Mae llawer o grwpiau garddio cymunedol yn adrodd yr heriau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at y tir, yn ogystal â, ond i raddau llai, cael mynediad at adnoddau eraill fel storio ac offer. Yn aml, mae biwrocratiaeth, cyfathrebu ag awdurdodau lleol a chyfyngiadau'r cyngor (er enghraifft, dim caniatâd i byllau a chychod gwenyn) yn cael eu hamlygu fel elfennau allweddol sy'n rhwystro twf. Yn yr un modd, mae rheoli perthnasoedd gyda landlordiaid neu elusennau rhiant yn ffynhonnell o rwystredigaeth, gyda rhai grwpiau'n profi diffyg cymorth neu gytundebau annelwig sy'n effeithio ar eu gallu i sicrhau cyllid neu sicrwydd hirdymor.⁶¹ »

Tidy Randalstow: Tyfu cymunedol drwy arddio a gwirfoddoli

Astudiaeth achos

Cafodd y grŵp Tidy Randalstow Prydain yn ei Blodau, a leolir yn Swydd Antrim, Gogledd Iwerddon, ei sefydlu 13 mlynedd yn ôl i dacluso'r dref. Bellach, mae tîm cryf o 25 gwirfoddolwr rheolaidd yn rhoi o'u hamser yn wythnosol i gynnal a chadw chwe gardd gymunedol a phrosiectau amgylcheddol eraill ar draws y dref. Yn eu festiau llachar maent yn denu pobl sy'n mynd heibio ac sy'n aml yn aros i'w holi am eu gerddi.

Roedd hi'n anodd yn y dyddiau cynnar; roedd y dref y cael ei hesgeuluso a'r ysbryd cymunedol yn isel. Dechreuom yn ara' deg, drwy godi sbwriel a defnyddio planhigion i ychwanegu lliw a gobaith. Ceisïom sicrhau ein bod yn weladwy – a daeth pobl yn fwy a mwy chwillfrydig,” eglurodd Helen Boyd, Cadeirydd a chyd-sylfaenydd Tidy Randalstow.

Mae denu a chadw gwirfoddolwyr yn her i nifer o grwpiau garddio cymunedol; fodd bynnag, prin mae'n rhaid i Tidy Randalstow ofyn yn uniongyrchol i bobl wirfoddoli. Yn hytrach, mae pobl yn dod atyn nhw pan maent yn eu gweld nhw allan yn gweithio. “Yn ogystal â datblygu sgiliau a hyder, rydym wedi ymrwymo i gadw teyrngarwch gwirfoddolwyr er mwyn cyfleu ein gwerthfawrogiad ohonynt. Rydym yn dod yn ymwybodol o'u hanghenion a'u diddordebau. Rydym hefyd yn ceisio meithrin cyfeillgarwch oes er mwyn sicrhau cefnogaeth drwy amseroedd da a drwg,” medd Helen.

Mae gwirfoddolwyr newydd yn cael pecyn croeso a chânt eu paru â chyfaill profiadol. Rydym wedi sefydlu grŵp WhatsApp er mwyn hwyluso cadw mewn cysylltiad. Caiff cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau penodol – fel y gwaith o drawsnewid traphont leol yn ardd gymunedol ffyniannus – eu cylchdroi. Ac nid gwaith yw popeth; mae yna egwyl bob amser ar gyfer ‘coffi, clonc a chacen’, gan alluogi gwirfoddolwyr i fwynhau'r buddion cymdeithasol o arddio gydag eraill, a chaiff llwyddiannau eu dathlu mewn digwyddiadau fel barbeciws a phartion Nadolig. “Rydych yn gallu teimlo'r cysylltiad,” meddai Helen. “Mae gennym ddiben cyffredin sydd yn uno grŵp o bobl wahanol iawn o bob cefndir.”

Mae'r sgiliau a'r profiad helaeth sydd gan wirfoddolwyr, o waith coed neu ysgrifennu ceisiadau am grantiau, wedi galluogi amrywiaeth eang o brosiectau. Drwy weithio ochr yn ochr ag ysgolion lleol, yr heddlu cymunedol a'r cyngor lleol, mae Tidy Randalstow wedi profi ei hun i fod yn rym daioni pwerus. Mae Helen yn cloi drwy ddweud, “Mae pobl yn gweld y newid yn glir ac yn ei deimlo yn y gymuned. Maen nhw'n awyddus i fod yn rhan ohono a chymryd perchnogaeth. Mae'r boddhad sy'n arwain o hyn yn arbennig iawn.”

Mae'r grŵp wedi derbyn sawl gwobr dros y blynyddoedd, gan gynnwys y teitl Enillydd Cyffredinol yng ngwobr Tref Daclusaf Iwerddon, ddwywaith, ac enillydd categori yn rowndiau terfynol Prydain yn ei Blodau yn 2017 a 2022.



Gardd Gymunedol Traphont Randalstow

Yn 2022, daeth hen draphont rheilffordd yn Randalstow Gogledd Iwerddon yn gyfatebol i 'The High Line' yn Efrog Newydd. Cafodd Gardd Elevation ryfeddol Randalstow ei dylunio gan John Knox a'i hariannu gan y RHS. Heddiw, mae'r ardal aruchel hon a weddnewidwyd yn ardd gymunedol lewyrchus sy'n dod â phleser i'r gymuned gyfan, 'y tlws mewn cadwyn o erddi yn Randalstow'.

Ffotograffiaeth: Linda Houston

Egwyddorion arweiniol Tidy Randalstow

- 1 Daw prosiectau o angen
- 2 Chwilio am gyllid
- 3 Gosod targedau cyraeddadwy Gosod sylfeini ein hunain i lwyddo
- 4 Dathlu bob tro'r ydym wedi cwblhau prosiect
- 5 Cynnal y canlyniadau

Mae sefydliadau a grwpiau dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau penodol rhag cael mynediad at dir, ac mae prosiectau fel *Rootz into Food Growing* (prosiect cydweithredol rhwng The Ubele Initiative, Black Rootz, OrganicLea a Land In Our Names) a *Jumping Fences: Land, food and racial justice in British farming* (prosiect ymchwil cydweithredol rhwng Land in Our Names, yr Ecological Land Cooperative a The Landworkers' Alliance) wedi edrych yn fanwl ar y rhwystrau hyn a'r datrysiadau posibl. Mae'r fath annhegwch parhaus yn cyfyngu unigolion, grwpiau, cymunedau a chymdeithas, yn ogystal ag atal llawn botensial y mudiad garddio cymunedol.

Heb ymdrechion targedig i symleiddio'r broses o gael mynediad at dir nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, a'i gwneud yn fwy cyfartal, mae perygl i gymunedau ddod yn llai cysylltiedig, iach ac amgylcheddol gynaliadwy; ond mae ymgysylltiad gwleidyddol a pholisïau sy'n cefnogi gwyrddu trefol yn parhau'n rhanedig. Gyda thargedau'r llywodraeth i adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd dros y pum mlynedd nesaf, a'r disgwyl y bydd gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu hyd at 12 tref newydd erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, mae 'gwyrddu'r llwyd' o'r cychwyn cyntaf yn bwysicach nag erioed.

Mae sawl grŵp garddio cymunedol yn barod i ehangu eu gwaith ond cânt eu cyfyngu gan ddiffyg tir addas a hirdymor, biwrocratiaeth awdurdod lleol neu fframweithiau cynllunio anghefnogol. Cafodd cymorth i sicrhau deiliadaeth tir hirdymor ei godi fel mater penodol.⁶²

Rhwydweithio ac eiriolaeth

Amlygodd grwpiau garddio cymunedol yr angen am fwy o gyfleoedd rhwydweithio a chymorth rhwng cymheiriaid. Mae grwpiau'n chwilio am ragor o gyfleoedd i gysylltu a rhannu syniadau a chynghor ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys cynghor ar weithgareddau allgymorth, denu a chadw gwirfoddolwyr newydd, cynaliadwyedd ac arfer gorau o ran yr amgylchedd.⁶³

Mae grwpiau hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i wneud yn fawr o ynni cyfunol garddwyr cymunedol y tu ôl i achos cyffredin, drwy gryfhau lleisiau'r mudiad garddio cymunedol ar lefel genedlaethol.⁶⁴

Ehangu Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd (GSP) a garddwriaeth therapiwtig

Dwywedodd 30% o grwpiau garddio cymunedol wrth y RHS eu bod yn cynnig Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd neu arddwriaeth therapiwtig ac o'r grwpiau hyn mae 34% yn ei nodi fel eu prif bwrpas.⁶⁵ Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau'n hunan-atgyfeiriadau (59%) ond

“Rwy'n awyddus i rannu ein profiad ni, a chlywed am eraill.”

daw llawer ohonynt hefyd drwy weithiwr cyswllt (47%) neu weithiwr iechyd proffesiynol (43%). Mae angen mwy o ymchwil i ddeall y gwaith a wneir gan erddi cymunedol yn y maes hwn.

Yn ddiddorol, mae gan 56% o'r grwpiau a nododd eu bod yn cynnig Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd (GSP) neu arddwriaeth therapiwtig staff cyflogedig ac mae canran enfawr ohonynt, 69% yn bryderus am eu parhad. Mae ymdrechion o'r newydd gan y llywodraeth a'r GIG i hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar y gymdogaeth i ofal ataliol.⁶⁶ Bydd hyn yn dibynnu ar asedau gwyrdd lleol a mentrau garddio cymunedol yn cael eu hariannu'n effeithiol er mwyn eu galluogi i gefnogi ymdrechion y llywodraeth ar raddfa.

Wrth i'r llywodraeth symud yn ei blaen â'i hymrwymiad i adeiladu'r seilwaith ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a'i wreiddio ar draws y GIG⁶⁷, mae yna angen cynyddol i gydnabod y rôl unigryw y gall gerddi cymunedol ei chwarae. Mae'r mannau hyn yn cynnig pwynt mynediad cymunedol, gwirioneddol ar gyfer GSP, gan ddarparu amgylcheddau lleol a chynhwysol sy'n gallu cefnogi gweithgarwch corfforol, llesiant meddwl a chyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau nad ydynt yn cael unrhyw gyllid i gefnogi eu gwaith yn y maes hwn. Mae Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd yn annhebygol o fod yn gynaliadwy wrth symud ymlaen heb ddatrys y bwlch ariannu hwn. Am ragor o wybodaeth gweler adroddiad *Food growing on prescription* Sustain.⁶⁸

Materion sy'n benodol i'r safle a heriau ymarferol

I rai grwpiau, mae prinder cyfleusterau sylfaenol fel storio diogel, toiledau hygyrch neu fannau dan do yn cyfyngu ar gapasiti gweithredol a chyfforddusrwydd gwirfoddolwyr yn sylweddol. I grwpiau a leolir mewn mannau cyhoeddus fel gorsafoedd trenau, gall rheoliadau diogelwch, anghenion teithwyr ac ymddygiad anghymdeithasol (yn cynnwys cyffuriau, sbwriel a difrodi eiddo) greu cyfyngiadau cymhleth ar weithgareddau garddio a chyfranogiad cymunedol. Mae'r angen am well cyfleusterau'n amlwg hefyd, gyda rhestrau dymuniadau'r ymatebwyr yn cynnwys mannau dan do neu gyfleustodau sylfaenol fel toiledau.⁶⁹ Mae cyflenwad dŵr hefyd yn fater o bwys – nodwyd hon fel y pumed her fwyaf sylweddol i grwpiau garddio cymunedol. Nid yw 41% o erddi cymunedol yn cynaeafu dŵr glaw ac nid oes gan 32% ohonynt fynediad at gyflenwad dŵr.



Gwireddu potensial y mudiad garddio cymunedol

Mae'r mudiad garddio cymunedol yn parhau i gynyddu, ac mae awydd ymhlith miliynau o bobl ledled y DU i ddechrau garddio yn eu cymdogaethau. Serch hynny, mae heriau a rhwystrau sylweddol rhag symud ymlaen yn dal i fod, fel y gwelsom uchod. Mae hyn yn cynnig cyfle enfawr i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau garddio cymunedol – gan gynnwys y RHS, partneriaid mewn sectorau perthynol a llywodraethau cenedlaethol a lleol ar draws ein pedair gwlad – i wella'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig er mwyn bodloni uchelgeisiau cyfunol gerddi cymunedol y DU. Sut allwn ni gydweithio i gefnogi a hyrwyddo'r mudiad garddio cymunedol, er mwyn datgloi ei botensial ymhellach dros bobl, lleoedd a'r blaned?

“Cyfathrebu y tu hwnt i'n maes ein hunain, a dysgu o'r hyn y mae eraill yn ei wneud. Hoffem allu siarad ag eraill sy'n gwneud pethau tebyg ar draws y wlad, dysgu oddi wrthynt a theimlo ein bod ni gyd yn rhan o rywbeth mawr gyda'n gilydd.”

Argymhellion i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau garddio cymunedol

Cryfhau lleisiau'r mudiad garddio cymunedol

Er mwyn ysgogi newid ar hyd a lled y wlad i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, bydd angen gweithio gyda chymunedau ar raddfa er mwyn cryfhau lleisiau cyfunol y mudiad garddio cymunedol. Ar hyn o bryd, mae diffyg llais unedig gan erddi cymunedol ar draws y DU, sy'n cyfyngu ar eu dylanwad a'u hamlygrwydd mewn trafodaethau cynllunio trefol ac amgylcheddol ehangach – gan adael eu rôl o fewn yr agenda gwyrddu trefol ehangach yn amwys a heb ei hintegreiddio'n dda. Amlygodd nifer o grwpiau garddio cymunedol a ymatebodd i arolwg y RHS bod angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth ac integreiddiad mewn polisi cyhoeddus, gan alw am fwy o ymdrech ar y cyd ac ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo eu pwysigrwydd ac annog cyfranogiad ehangach. Er gwaethaf eu potensial i ymdrin â'r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol, mae'r sector garddio cymunedol yn aml yn teimlo diffyg gwerthfawrogiad gan lunwyr polisi a'r gymdeithas ehangach.⁷⁰ Heb lais cenedlaethol mwy unedig, mae'n annhebygol y bydd eu potensial yn cael ei ddeall na'i gefnogi'n llawn ar lefel polisi, gan amharu ar allu gerddi cymunedol i gyfrannu'n ystyrlon i wydnwch amgylcheddol a datblygiad trefol cynaliadwy, ac felly bydd hyn yn eu hatal rhag cyflawni eu heffaith lawn ar draws lleoliadau amrywiol.

Mae cyfle sylweddol i wneud mwy i gynrychioli'r mudiad garddio cymunedol i lywodraethau lleol, datganoledig a'r DU gyfan, gyda'r bwriad o amlygu sut all garddio cymunedol fod yn rhan o'r datrysiad i gyflawni ar flaenoriaethau polisi allweddol: yn cynnwys gwneud mynediad at fyd natur yn gyfartal, gwella canlyniadau iechyd a llesiant, gwyrddu ardaloedd trefol, gwella cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â'r argyfwng byd natur. Drwy gydlyn ymdrechion yn fwy agos, gallai sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn ddod â system ranedig o gymorth i grwpiau garddio cymunedol a'i gwneud yn haws i bobl sydd â diddordeb mewn garddio cymunedol i gymryd rhan. Gallai mwy o gydlyniant a chynrychiolaeth ddatgloi pŵer trawsnewidiol garddio cymunedol a sicrhau bod ardaloedd awyr agored o fewn cymunedau ledled y DU yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi pobl, lleoedd a'r blaned.

Hybu a hwyluso rhwydweithiau a rhannu sgiliau rhwng cymheiriad

Mae yna lawer o rwydweithiau llewyrchus o grwpiau garddio cymunedol ar draws y wlad sy'n gwneud gwaith gwych ar lefel leol a rhanbarthol, ac weithiau ar lefel genedlaethol. Serch hynny, mae ymchwil newydd y RHS wedi amlygu'r angen am fwy o hyrwyddiad ar lefel genedlaethol a chyfleoedd rhwydweithio rhwng cymheiriad i arddwyr cymunedol, gyda bwriad o hybu ac ategu'r rhwydweithio a'r rhannu sgiliau effeithiol sydd eisoes ar waith.

Argymhelliad:

Dylai sefydliadau sydd â rôl genedlaethol a/neu ranbarthol mewn garddio cymunedol gydweithio'n agosach, creu ymgyrchoedd eirioli ar y cyd a datblygu strategaethau cyffredin ar gyfer cynrychioli lleisiau a phryderon y mudiad garddio cymunedol i lywodraethau a chyllidwyr ledled y DU.

Argymhelliad:

Dylai sefydliadau sydd â rôl genedlaethol a/neu ranbarthol mewn garddio cymunedol weithio'n gydweithredol i hwyluso mwy o gyfleoedd rhannu sgiliau a rhwydweithio, gyda'r nod o gefnogi garddwyr cymunedol i atgyfnerthu eu sgiliau i greu'r newid gwyrdd y maent yn awyddus i'w weld yn eu hardaloedd lleol.

Electric Daisy: Dod â'r bwrlwm yn Derby i bobl a pheillwyr

Beth sy'n dod i'r meddwl pan rydych yn meddwl am ardd gymunedol? Chwynnu a dyfrio, ynteu nosweithiau DJ, sgysiau a choginio cymunedol? Yng nghanol dinas Derby, mewn lle a arferai fod yn archfarchnad adfeilledig oedd wedi'i chlustnodi i gael ei datblygu, mae gardd gymunedol Electric Daisy yn gwneud popeth o'r uchod, a mwy. Mae Electric Daisy yn fwrlwm o fywyd – ar gyfer pobl a pheillwyr – gyda rhaglen o ddigwyddiadau'n amrywio o gerddoriaeth fyw 'veg and vibes' i chwarae blêr i blant bach. Maent yn cynnig man i aelodau o'r gymuned gysylltu drwy fywyd, addysg a diwylliant, wedi'i wreiddio'n gadarn ym myd natur.

“Mae diben cyfunol yn greiddiol iddi: dod â phobl ynghyd i aiddychmygu dinas Derby,” meddai Jamie Quince-Starkey, y grym y tu ôl i Electric Daisy. Ategodd Jamie, “Mae Electric Daisy yn hedyn ar gyfer trawsnewid dinas gyfan – tystiolaeth y gallwn, gyda diben gyffredin, weddnewid mannau a esgeuluswyd yn ganolfannau ffyniannus.”

Mae'r ardd, a ddaeth yn fyw o ganlyniad i gydweithrediad â Chyngor Dinas Derby ac amrywiaeth o bartneriaid lleol – o fusnesau mawr fel Rolls Royce i gwmnïau bach lleol a roddodd eu cefnogaeth yn rhad ac am ddim – yn dangos yr hyn y mae modd ei gyflawni pan mae awdurdodau lleol, busnesau lleol a sefydliadau diwylliannol yn gweithio â chymunedau i gefnogi eu gweledigaethau i drawsnewid gofod trefol. Parhaodd Jamie drwy ddweud, “Mewn rhyw ffordd, mae'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yma'n teimlo'n radical o safbwynt yr ystod o bartneriaethau. Ond, rwy'n gobeithio y bydd yn gweithredu fel arddangosfa o'r hyn y mae modd ei wneud gyda chyfranogiad corfforaethol a'r cyngor, ac yn fodel y gallai eraill ei ddefnyddio o bosib. Os oes gennych chi syniad gwych, siaradwch â'r cyngor lleol neu fusnesau lleol – i weld a ydych chi'n gallu dod o hyd i hyrwyddwyr lleol i'ch cynorthwyo i fynd ag ef ymhellach”

Y weledigaeth ar hyd yr amser oedd gwneud Electric Daisy yn economaidd gynaliadwy heb gyllid grant, sydd bellach yn agos at gael ei gwireddu: “Rydym yn ein trydydd tymor, ac rwy'n credu ein bod ni ar y trywydd i fod yn ariannol gynaliadwy erbyn yr hydref,” medd Jamie. Cyflawnwyd hynny drwy ryw faint o weithgarwch masnachol – codir tâl ar gyfer rhai o'r gweithgareddau – ochr yn ochr â diwrnodau gwirfoddoli a digwyddiadau am ddim cymunedol, pob un gyda'r ardd a byd natur yn ganolog iddynt. “Mae'n rhaid i ni ei wneud yn economaidd hyfyw,” medd Jamie. “Rydym eisiau profi bod y model hwn yn gweithio.”

Dywed Jamie mai un o'r pethau y mae'n fwyaf balch ohono yw'r ffordd mae'r gronfa o wirfoddolwyr yn yr ardd wedi datblygu. “Mae gennym tua 80 o wirfoddolwyr craidd o bob cwr o'r gymuned leol, sy'n dod i dreulio amser yn yr ardd ar ddyddiau a dydd Sul. Cymerodd amser i feithrin y cysylltiadau hynny a'r cyfathrebu rhyngom, ond erbyn hyn mae gwirfoddolwyr yn arwain a rheoli'r hyn sydd ei angen ar yr ardd. Rydym yn ffodus o gael grŵp amrywiol o wirfoddolwyr sy'n frwd dros wyrddu Derby. Rydym wastad yn chwilio am bobl newydd i gymryd rhan hefyd.”

Mae creu'r gofod hyblyg hwnnw i alluogi pobl i gysylltu â'i gilydd drwy fydd natur mewn ffordd sy'n ymaddasu i fywydau modern, prysur yn genhadaeth bersonol ddofn i Jamie, fel tad a gweithiwr prysur. “Meddyliais am yr hyn roedd fy nheulu ei angen, siaradais a ffrindiau a chymdogion am yr hyn roedd eu teuluoedd i angen, a mynd ymlaen o'r fan honno. Roeddwn eisiau i'r lle fod yn hygyrch i bawb ac yn addas i'r teulu. Mae teuluoedd ifanc angen pethau i'w gwneud yng nghanol dinasoedd sy'n wahanol i chwarae meddal yn unig ac sy'n galluogi rhieni i gymdeithasu a sgwrsio gyda'i gilydd. Mae'n hanfodol deall pa mor brysur yw bywydau pobl y funud hon a chreu rhywbeth sy'n helpu iddynt gysylltu â byd natur mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw; ond i wneud hynny mae'n rhaid i ni ei wneud yn berthnasol, hygyrch a difyr.”



Mae Electric Daisy yn cynnal digwyddiadau garddio cymdeithasol 'Grow Bros' yn rheolaidd ac mae'r rhain yn aml yn gorffen gyda'r grŵp yn dod ynghyd am bryd o fwyd yn yr ardd.

Ffotograffiaeth: Jamie Quince-Starkey

“...mewn rhyw ffordd, mae'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yma'n teimlo'n radical o safbwynt yr ystod o bartneriaethau. Ond, rwy'n gobeithio y bydd yn gweithredu fel arddangosfa o'r hyn y mae modd ei wneud gyda chyfranogiad corfforaethol a'r cyngor, ac yn fodel y gallai eraill ei ddefnyddio o bosib.”

– Jamie Quince-Starkey, Electric Daisy

Argymhellion i lywodraethau cenedlaethol

Gwreiddio gerddi cymunedol mewn cynllunio strategol

Mae data'r RHS yn dangos bod sawl grŵp garddio cymunedol yn barod i ehangu eu gwaith a chyflawni mwy fyth o werth i'w cymunedau, ond cânt eu cyfyngu'n aml gan ddiffyg tir addas a hirdymor, neu fframweithiau cynllunio anghefnogol.

Yn 2025, cydweithiodd y RHS â Seneddwy'r a sefydliadau partner yn y sector i alw ar lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy gydnabod gerddi cymunedol yn glir (mewn deddfwriaeth) fel seilwaith o bwys strategol o fewn strategaethau datblygu gofodol.⁷¹ Byddai'r diwygiad Gofod i Dyfu i'r Bil Cynllunio a Seilwaith yn sicrhau nad ôl-ystyriaeth ddewisol yw gerddi a rhandiroedd cymunedol ond yn hytrach y cânt eu hystyried yn rhagweithiol ac yn gyson gan awdurdodau lleol mewn penderfyniadau cynllunio sy'n llywio datblygiad hirdymor cymdogaethau.

Mae dyrchafu gerddi cymunedol i statws seilwaith strategol yn hanfodol i anfon neges glir ynghylch eu gwerth mewn cyflawni canlyniadau iechyd, cymdeithasol a hinsawdd. Yn ei thro, byddai sylfaen bolisi gryfach yn helpu grwpiau garddio cymunedol i gael mynediad at dir, cyllid a phartneriaethau i ehangu eu gwaith.

Integreiddio garddio cymunedol i strategaethau trawsadrannol

Mae garddio cymunedol yn trawstorri meysydd polisi mewn gwahanol adrannau'r llywodraeth ar lefel y DU ac mewn gwledydd datganoledig – yn cynnwys iechyd a llesiant, mynediad at fyd natur, bioamrywiaeth a'r hinsawdd, strategaeth fwyd, gwirfoddoli, cynllunio a pholisi cymdeithasol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod gan arddio cymunedol y pŵer i ategu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ym mhob un o'r meysydd hyn, ac o ganlyniad, dylai ddod yn rhan o bolisi a strategaethau trawsadrannol yng Nghymru Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, gallai Defra wneud mwy i ymgysylltu â'r sector garddio cymunedol wrth ddatblygu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Byddem yn croesawu Swyddfa ar Gyfer Mannau Gwyrdd draws-lywodraethol i hwyluso'r gwaith trawstoriadol hwn.

Cydnabod y rôl sydd gan arddio cymunedol mewn adfer byd natur

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu ac ychwanegu at y corff sylweddol o ymchwil sy'n rhoi tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y gall garddio cymunedol ei chael ar adfer byd natur. Mae'r RHS yn argymhell y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon gydnabod yn ffurfiol y rôl hanfodol sydd gan dyfu cymunedol mewn adfer byd natur, a nodi'n fanwl sut maent yn bwriadu cefnogi garddwyr cymunedol a sefydliadau garddio cymunedol yn eu gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur.

Argymhelliad:

Dylai llywodraeth y DU a llywodraethau'r gwledydd datganoledig ddod o hyd i gyfleoedd deddfwriaethol a pholisi i symud yr ymgyrch Gofod i Dyfu ymlaen, drwy fewnosod gerddi cymunedol ym mholisi cynllunio cenedlaethol fel seilwaith o bwysigrwydd strategol.

Argymhelliad:

Dylai llywodraeth y DU a llywodraethau'r gwledydd datganoledig ymgynghori ac ymgysylltu â'r sector garddio cymunedol i sicrhau bod garddio cymunedol yn cael ei integreiddio yn y meysydd a'r strategaethau polisi lle mae modd iddo chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Dylai syniadau am Swyddfa ar Gyfer Mannau Gwyrdd Llywodraeth y DU gael eu datblygu a'u hyrwyddo.

Argymhelliad:

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon gydnabod y rôl mae garddio – a garddio cymunedol yn benodol – yn ei chwarae o ran adfer byd natur, a nodi sut byddant yn cefnogi gwaith garddwyr cymunedol i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur.

Manteisio ar bŵer garddio cymunedol i gyflawni blaenoriaethau polisi yn nwyrain Suffolk

Astudiaeth achos

Os ewch chi draw i Stryd Fawr Saxmundham ar fore Llun neu fore Gwener a'ch bod yn digwydd taro ar faes parcio tafarn y Queens Head, fe sylwch ar fwrllwm o amgylch stondin farchnad â chanopi gwyn – dyma Oergell Gymunedol Saxmundham. Dechreuodd Marion Hedley Lewis y prosiect ym mis Mehefin 2022 ar ôl gweld y syniad ar raglen Countryfile y BBC. Mae Oergell Gymunedol Sax bellach wedi hen sefydlu ac eisoes yn arbed 12 tunnell o wastraff bwyd bob blwyddyn rhag cyrraedd safleoedd tirlenwi. “Nid banc bwyd nac archfarchnad gymdeithasol mohoni,” eglurodd. “Mae'r oergell er budd pawb; boed nhw'n ifanc neu'n hen, cyfoethog neu'n dlawd. Os allwch ddefnyddio'r cynnyrch neu ei rannu, yna mae croeso i chi alw heibio.”

A hithau wedi'i henwebu ar gyfer rownd derfynol y Categori Gwyrdd yng Ngwobrau 'Make a Difference' 2025 Radio Suffolk y BBC, caiff yr Oergell Gymunedol ei chyflenwi â chynnyrch ffres a hadau a dyfwyd gan arddwyr cymunedol yn Rhandir Cymunedol Sax, lle mae croeso i bobl o bob oed a chefnidir fynd draw i chwynnu a dyfrio a mwynhau coffi, cacen a chlonc. Mae Cyngor Dwyrain Suffolk, sy'n cydnabod y gwahaniaeth y gall garddio cymunedol ei wneud i'w strategaethau o ran iechyd, yr economi a'r amgylchedd, wedi cefnogi Rhandir Cymunedol Sax gyda grant o £2,000 i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau'r haf er mwyn ymgysylltu gyda mwy o deuluoedd lleol. “Mae prisiau cynyddol yn her i lawer o deuluoedd,” medd Andy Jolliffe, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol yn y Cyngor. “Mae cefnogi ein gerddi cymunedol i gynyddu cynhyrchiant a denu pobl newydd i dyfu yn hollbwysig i'n helpu ni i gyflawni ar ein blaenoriaethau polisi ar gyfer cymunedau lleol.”

Mae'r ffaith bod Cyngor Dwyrain Suffolk wedi cydnabod pa mor bwysig yw tyfu cymunedol i gyflawni eu blaenoriaethau polisi wedi arwain at greu cynllun grantiau bach ar gyfer gerddi cymunedol (dyfernir £14,000 yn flynyddol) ynghyd â'r fenter 'Field to Fork', sydd â'r bwriad o gefnogi 2,000 o aelwydydd (5,000 o bobl) bob blwyddyn i ddechrau tyfu eu bwyd eu hunain drwy ddefnyddio citiau tyfu. Aeth y Cyngor ati i greu 'cyfrifwr gwerth' (gweler y wybodaeth ar y dde) i gyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad a gynhyrchwyd gan y cynlluniau hyn, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y citiau tyfu'n unig wedi cynhyrchu 7.64 gwaith gwerth y buddsoddiad (£17,000) - canlyniad cyffrous i unrhyw awdurdodau lleol eraill sy'n ystyried ail-greu cynlluniau o'r fath yn eu hardaloedd.

Awgrymiadau Ardderchog i Awdurdodau Lleol gan Gyngor Dwyrain Suffolk

- Dylech ymweld â grwpiau garddio cymunedol ar lawr gwlad
- Dylech gynnwys preswylwyr mewn lleoliadau gwledig (mae yna lawer nad ydynt yn gwybod sut i dyfu)
- Dylech sicrhau bod y cynlluniau'n ganolog i gynllun busnes yr awdurdod lleol
- Ni ddylech fod yn rhy gyfarwyddol gyda'ch grantiau – dylid caniatáu ar gyfer gwahanol anghenion
- Dylech gynnwys partneriaid er mwyn rhannu'r baich
- Dylech gynnwys y cyngor cynaliadwydd diweddaraf er mwyn datblygu'r citiau
- Dylech ddangos y gwerth drwy gyfrifwr gwerth
- Dylech gadw mewn cysylltiad â thyfwr newydd dros e-bost, gan gynnig cynghorion drwy gydol y tymhorau



Rhandir Cymunedol Saxmundham Defnyddiodd Rhandir Cymunedol 'Sax' Saxmundham eu grant i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r prosiect drwy gynnal digwyddiadau agored ar y plot yn yr haf, yn cynnwys barbeciw cymunedol. Bu'r digwyddiadau, a ariannwyd gan y Cyngor, o gymorth iddynt leoli sawl teulu newydd a allai elwa o'r 'oergell gymunedol' a gynhaliwyd ganddynt ddwywaith yr wythnos yn y maes parcio lleol.

Ffotograffiaeth: Martin Thorold

Cyfrifwr gwerth

Buddsoddiad y cyngor mewn grantiau (£14,000) a chitiau tyfu (£17,000) yn 2024

£31,000

Gwerth tybiedig y cynnyrch a dyfwyd gan drigolion

£130,000

Enillion ar fuddsoddiad (ROI) ar gyfer citiau tyfu

x7.64

Y gostyngiad tybiedig yn lefelau carbon deuocsid o ganlyniad i drigolion yn tyfu eu bwyd eu hunain

28,000 kilos



Argymhellion i lywodraeth leol

Creu strategaeth leol i arddio cymunedol

Byddai rhoi dull strategol ar waith i gefnogi garddio cymunedol yn helpu awdurdodau lleol a maeryddiaethau rhanbarthol i gyflawni yn erbyn eu blaenoriaethau polisi ar gyfer trigolion lleol – gan gynnwys gwella iechyd a llesiant, uno cymunedau, datblygu ymdeimlad cryf o le, adfer byd natur a chyflawni ar nodau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cydnabod yr effaith y gall cefnogi garddio cymunedol ei chael ar eu meysydd ac maent eisoes yn arwain y ffordd gyda'u dulliau strategol eu hunain o gefnogi tyfu lleol. Mae Cyngor Southwark wedi penodi dau Gydlynnydd Garddio Cymunedol i gefnogi rhwydwaith o erddi cymunedol lleol; mae Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf wedi buddsoddi miliynau drwy ei Gronfa Mannau Gwyrdd, ac mae cynllun 'Field to Fork' dwyrain Suffolk yn helpu cymunedau i dyfu eu bwyd eu hunain. Mae'r mentrau blaengar hyn yn amlygu'r potensial sy'n gysylltiedig â gweithredu dull strategol i gefnogi garddio cymunedol lleol.

Defnyddio'r fenter Hawl i Dyfu i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau polisi lleol

Mae ymgyrch Hawl i Dyfu Incredible Edible yn annog awdurdodau lleol i'w gwneud hi'n haws nodi a chael mynediad at dir cyhoeddus sy'n addas ar gyfer tyfu cymunedol neu brosiectau bywyd gwyllt. Mae hefyd yn galw am broses symlach i alluogi grwpiau i sicrhau prydles am ddim i drin y tir, ac i'r grwpiau hynny gael y cyfle i gynnig am y tir os yw'n mynd ar werth.

Mae'r fenter Hawl i Dyfu yn cynnig cyfle gwirioneddol i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni ar eu blaenoriaethau polisi mewn meysydd fel llesiant a chydlyniant cymdeithasol drwy gefnogi pobl leol i dyfu yn eu cymunedau. Yn ychwanegol, drwy alluogi grwpiau cymunedol i gymryd rheolaeth o fannau cyhoeddus nas defnyddir yn ddigonol, gallai cynghorau arbed costau cynnal a chadw – a allai gael ei ddefnyddio at ddiben arall er mwyn cefnogi tyfu cymunedol yn uniongyrchol. »

Argymhelliad:

Dylai awdurdodau lleol ystyried sut allai creu strategaeth leol ar gyfer garddio cymunedol, neu gynnwys garddio cymunedol yn y strategaethau presennol eu helpu i gyflawni eu blaenoriaethau polisi i drigolion lleol.

Argymhelliad:

Dylai awdurdodau lleol ystyried sut allent gyflawni ar eu blaenoriaethau polisi drwy fabwysiadu'r fenter Hawl i Dyfu.

Mae'r fenter Hawl i Dyfu wedi dal sylw gwleidyddol ledled y DU ac mae'n parhau i ddatblygu momentwm ar lefel leol, gyda chwe awdurdod lleol yn mabwysiadu Hawl i Dyfu hyd yma – yn cynnwys Hull a Bury. Po fwyaf o awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu'r fenter Hawl i Dyfu, y mwyaf o rwystrau fydd yn cael eu chwalu ar gyfer tyfwrwyr cymunedol sy'n ceisio cael mynediad at dir a'r mwyaf y bydd cynghorau'n gallu defnyddio pŵer y mudiad garddio cymunedol i'w cynorthwyo nhw i gyflawni blaenoriaethau polisi.

Argymhellion i gyllidwyr

Buddsoddi yn y dyfodol

Mae mynediad at gyllid priodol yn parhau i fod yn rhwysr sylweddol, yn enwedig o ystyried mai 20% yn unig o grwpiau garddio cymunedol sy'n elusennau cofrestredig.⁷² Mynegodd y grwpiau awydd clir am ffrydiau ariannu mwy hygyrch a hyblyg, yn ogystal â gwell cefnogaeth ac arweiniad i gael mynediad atynt.⁷³ Mae'n hanfodol hefyd bod cyllidwyr yn cydnabod anghenion gwahanol yr ystod amrywiol o grwpiau a sefydliadau sy'n rhan o'r mudiad garddio cymunedol, yn arbennig o safbwynt y cyfuniad o gyfleoedd cyllid referniw a chyllid cyfalaf sydd eu hangen ar frys.

Mae'n amlwg, o ystyried hefyd y 24% o grwpiau a nododd nad oeddent yn gwybod sut i ddod o hyd i gyfleoedd cyllid priodol⁷⁴, bod angen gwneud mwy i sicrhau bod modd i grwpiau garddio cymunedol o bob lliw a llun – yn cynnwys y rheiny sy'n gweithredu y tu allan i sector elusen y DU – gael mynediad at gyllid.

Argymhelliad:

Dylai cyllidwyr sy'n cefnogi seilwaith gwyrdd adolygu eu cyfleoedd grant yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae llawer o erddi cymunedol nad ydynt yn elusennau cofrestredig ac o ganlyniad gallant fod yn anghymwys ar gyfer nifer o ffynonellau cyllid o dan y meini prawf cyfyngol presennol; yn aml, mae rhwydweithiau seilwaith a sefydliadau mwy mewn angen dybryd am gyllid referniw cynaliadwy yn ogystal â chyfleoedd cyfalaf; ac mae angen i bob grŵp garddio cymunedol weld prosesau ymgeisio a disgwyliadau adrodd llai llym gan gyllidwyr.

Galwad i weithredu

Mae angen i'r RHS, sefydliadau eraill sy'n cefnogi twf cymunedol a'r llywodraeth – yn genedlaethol ac yn lleol – godi ein huchelgeisiau torfol yn y maes hwn.

Sut allwn ni gydweithio'n well i gefnogi'r mudiad garddio cymunedol i dyfu a chyflawni ei lawn botensial ar gyfer pobl, lleoedd a'r blaned?

Yn 2026, drwy weithio'n agos â sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r mudiad garddio cymunedol, bydd y RHS yn defnyddio'r adroddiad hwn i greu cynllun gweithredu fydd yn nodi sut byddwn yn cefnogi a datblygu'r mudiad wrth symud ymlaen.



Diolchiadau

Dymunwn yma yn nhîm Cymunedau yr RHS fynegi ein diolch i bawb a roddodd o'u hamser, eu mewnbwn, eu profiad a'u harbenigedd i'r ymchwil a'r adroddiad hwn.

Mae nifer fawr o bartneriaid wedi ein cynorthwyo ni i lywio a hyrwyddo'r Arolwg Garddio Cymunedol Cenedlaethol, ac ni fyddem wedi llwyddo i gael 2,000 o ymatebion hebddynt. Bu partneriaid eraill o gymorth i hwyluso cysylltiadau â'r grwpiau garddio cymunedol ar gyfer astudiaethau achos a sgysysau, ac maent wedi gweithredu fel cyfeillion allweddol hanfodol a chlust i wrando drwy gydol y prosiect.

Diolch yn benodol i aelodau'r Rhwydwaith Garddio Cymunedol Cenedlaethol (a restrir gerllaw), y bu eu cyngor doeth a'u cefnogaeth o gymorth i ni lywio'r prosiect hwn ers ei sefydlu.

Bu sawl grŵp garddio cymunedol yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau 1:1 gyda staff y RHS a grwpiau ffocws gyda Morris Hargreaves McIntyre. Bu grwpiau eraill yn garedig yn cefnogi'r prosiect hwn drwy ddarllen copi cynharach o'r adroddiad hwn a rhoi eu cyngor a'u sylwadau, er mwyn helpu tîm y RHS i sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn adlewyrchu anghenion y grwpiau garddio cymunedol.

Diolch yn arbennig i'r cydweithwyr RHS lu a gyfrannodd at yr adroddiad hwn: yn benodol Emma Robinson, awdur Lle i Dyfu; Kerry Williams, a ddyluniodd Gofod i Dyfu; Pak Ling Wan, Lucy Ribeiro a Samantha Kennedy, a weithiodd ar y data; Julie Munk, a weithiodd ar y delweddau; a Sarah Galvin, a gefnogodd y prosiect Gofod i Dyfu cyfan. Diolch hefyd i'r tîm yn Morris Hargreaves McIntyre am eu holl waith caled ar yr arolwg, y grwpiau ffocws a dadansoddi'r data.



Diolch i:

Y Rhwydwaith Garddio Cymunedol Cenedlaethol y mae ei aelodaeth yn cynnwys:

Prydain yn ei Blodau

Eden Project

Garden Organic

Groundwork

Hubbub

Incredible Edible Network

Keep Northern Ireland Beautiful

Keep Scotland Beautiful

Cadwch Gymru'n Ddaclus

Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Natural England

Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew

Social Farms & Gardens

Soil Association

Sustain

Y Gwirfoddolwyr Cadwraeth

Cymdeithas Rhandiroedd Cenedlaethol

The Orchard Project

Ymddiriedolaethau Natur

Thrive

Wates Family Enterprise Trust

Y miloedd o grwpiau garddio cymunedol sydd wedi rhoi eu mewnbwn; yn benodol y grwpiau canlynol, a ddarllenodd ac a fyfyrdd ar ddrafft cynharach o'r adroddiad hwn:

Grow 73 – Rutherglen a Cambuslang, Yr Alban

Tyfu Caerdydd – Caerdydd, Cymru

Ligoniel Improvement Association – Belfast, Gogledd Iwerddon

Oasis Community Gardens – Worksop, Lloegr

Core Landscapes – Llundain, Lloegr



Cefndir a methodoleg ymchwil

Yn hydref 2024, comisiynodd y RHS Morris Hargreaves McIntyre (MHM) i helpu gydag archwilio statws grwpiau garddio cymunedol yn y DU.

Roedd cam cyntaf yr ymchwil yn cynnwys cyflwyno'r Arolwg Garddio Cymunedol Cenedlaethol ym mis Ionawr 2025. Roedd yr ymateb yn ysgubol, diolch i'r sefydliadau partner niferus a fu'n hyrwyddo'r arolwg i'w haelodau a'u rhwydweithiau.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod sampl yr arolwg mor gynrychioladol â phosibl, gyda thros 9,600 o grwpiau garddio cymunedol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Cafwyd ymateb gan 2,023 o grwpiau o bob cwr o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon – cyfradd ymateb o 21% i'r arolwg. Oherwydd maint sylweddol y sampl, y gyfradd ymateb uchel a'r ystod o grwpiau a ymatebodd (yn seiliedig ar leoliad, strwythur staff, nifer y gwirfoddolwyr, nifer y blynyddoedd ers sefydlu, ffocws) rydym wedi cymryd bod y data yn gynrychioladol o'r mudiad garddio cymunedol.

Dilynwyd yr arolwg gan 34 cyfweiliad manwl, pob un yn para am o leiaf 30 munud, gyda staff tîm Cymunedau yr RHS yn eu cynnal. Yn olaf, cynhaliodd MHM dri grŵp ffocws 90 munud i wella dealltwriaeth o ganlyniadau'r arolwg.

Ar yr un pryd, fel rhan o olwg ehangach ar gyflwr garddio yn y DU, gweithiodd y RHS â YouGov ar 'Arolwg Cynaliadwyedd' ar-lein gyda sampl o 3,041 o oedolion; cynhaliwyd gwaith maes ym mis Ionawr 2025, a chafodd y ffigyrau eu pwysoli i fod yn gynrychioladol o holl oedolion y DU. Cynhyrchodd yr arolwg hwn amcangyfrifon meintiol o raddfa'r mudiad garddio cymunedol yn ogystal â'r potensial i dyfu. Y rhif sydd ar goll yma yw 'sawl grŵp garddio cymunedol sydd yn y DU?'; ond oherwydd natur anffurfiol llawer o'r grwpiau ac amrywiaeth y mathau o grwpiau, ni fu'n bosibl hyd yma i wneud y bras amcan hwn.

Bwriad yr adroddiad hwn oedd amlygu'r prif ystadegau, themâu a thueddiadau sydd wedi ymddangos o'r ddau brosiect ymchwil yma, wrth gyfleu hefyd rhywfaint o ehangder y gweithgarwch – sy'n dod yn fyw yn yr astudiaethau achos rydym wedi'u cynnwys – er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o'r mudiad garddio cymunedol yn y DU yn 2025.

1. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data crai nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
2. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
- 3 – 5. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data crai nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
- 6 – 11. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
12. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data crai nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
13. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
14. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data crai nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
- 15 – 24. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
- 25, 26. Martin, K, Atkinson, M, & Springate, I (2008), *Intergenerational Practice: A Review of the Literature*. Slough: National Foundation for Educational Research (NFER). Cafwyd o wefan NFER
27. More in Common (2025), 'Social Cohesion: a snapshot' <https://www.moreincommon.org.uk/blog/social-cohesion-a-snapshot/> Cyrchwyd 6 Awst 2025
28. Sefydliad Iechyd Meddwl 'Loneliness in young people: research briefing' <https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/public-engagement/unlock-loneliness/loneliness-young-people-research-briefing> Cyrchwyd 6 Awst 2025
29. Age UK (2024), 'Loneliness research and resources: 2024' <https://www.ageuk.org.uk/our-impact/policy-research/loneliness-research-and-resources/> Cyrchwyd 6 Awst 2025
30. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data crai nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
- 31, 32. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
33. Ogletree et al (2022), 'Urban greenspace linked to lower crime risk across 301 major U.S. cities' *Cities Volume 131*, Rhagfyr 2022, 103949 <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0264275122003882> Cyrchwyd 31 Gorffennaf 2025
34. System Iechyd Prifysgol Virginia (2020), 'How green space can reduce violent crime' *ScienceDaily*. www.sciencedaily.com/releases/2020/02/200227144253.htm Cyrchwyd 5 Awst 2025
35. The Work of Community Gardens: Reclaiming Place for Community in the City
36. Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2023), A million fewer people are gaining health benefits from nature since 2020. Cafwyd o <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/>
37. Swami et al (2024), 'Exposure and connectedness to natural environments: An examination of the measurement invariance of the Nature Exposure Scale (NES) and Connectedness to Nature Scale (CNS) across 65 nations, 40 languages, gender identities, and age groups' <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0272494424002056> *Journal of Environmental Psychology*, Volume 99, 2024. Cyrchwyd 5 Awst 2025
38. Ngan TT, Wang R, Tate C, et al. 'Inequality in green space distribution and its association with preventable deaths across urban neighbourhoods in the UK, stratified by Index of Multiple Deprivation' <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/39532391/> *J Epidemiol Community Health*. Ionawr 2025. Cyrchwyd 6 Awst 2025
39. Llywodraeth y DU (Gorffennaf 2025) 'Fit for the Future: 10 Year Health Plan for England' <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6888a0996478525675738f3a/fit-for-the-future-10-year-health-plan-for-england-executive-summary.pdf> Cyrchwyd 6 Medi 2025
40. Academi Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol (2024), The impact of social prescribing on health service use and costs: Examples of local evaluations in practice. Llundain: Academi Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. Cafwyd o <https://socialprescribingacademy.org.uk/media/t13fg02l/the-impact-of-social-prescribing-on-health-service-use-and-costs.pdf>
- 41, 42. Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2020), 'One in eight British households has no garden' <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/> Cyrchwyd 6 Awst 2025
43. Is-adran Wyddoniaeth a Chasgliadau RHS (2025), Arolwg Garddio Cynaliadwy Oedolion (data amrwd nas cyhoeddwyd), Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Ionawr 2025
44. Egerer, M, Karlebowsky, S, Conitz, F, Neumann, A. E, Schmack, J. M, & Sturm, U (2024), In defence of urban community gardens. *People and Nature*, 6, 367–376. <https://doi.org/10.1002/pan3.10612> Cyrchwyd 31 Gorffennaf 2025
- 45, 46. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
47. Nova P, Pinto E, Chaves B, Silva M (2020) Urban organic community gardening to promote environmental sustainability practices and increase fruit, vegetables and organic food consumption <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/30471837/> Cyrchwyd 6 Awst 2025
48. Tomatis F, Egerer M, Correa-Guimaraes A, Navas-Gracia LM (2023) Urban Gardening in a Changing Climate: A Review of Effects, Responses and Adaptation Capacities for Cities. *Agriculture* <https://doi.org/10.3390/agriculture13020502> Cyrchwyd 6 Awst 2025
49. Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (2025), 'Priorities for environmental monitoring and accountability moving forward – speech by Dame Glenys Stacey' 15fed Gorffennaf 2025 <https://www.theoep.org.uk/news/priorities-environmental-monitoring-and-accountability-moving-forward-speech-dame-glenys> Cyrchwyd 30 Gorffennaf 2025
- 50 – 65. Morris Hargreaves McIntyre (2025), 'RHS: an audit of the status and needs of Community Gardens across the UK' Gorffennaf 2025
66. Llywodraeth y DU (Gorffennaf 2025) 'Fit for the Future: 10 Year Health Plan for England' <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6888a0996478525675738f3a/fit-for-the-future-10-year-health-plan-for-england-executive-summary.pdf> Cyrchwyd 6 Medi 2025
67. NHS England (Ionawr 2025) 'Neighbourhood health guidelines 2025/26' <https://www.england.nhs.uk/publication/neighbourhood-health-guidelines-2025-26/> Cyrchwyd 6 Medi 2025
68. Sustain (2019), Food growing on prescription: Social prescribing and London's community garden and food growing sector https://www.sustainweb.org/reports/food_growing_on_prescription
69. NHS England (Ionawr 2025) 'Neighbourhood health guidelines 2025/26' <https://www.england.nhs.uk/publication/neighbourhood-health-guidelines-2025-26/> Cyrchwyd 6 Medi 2025
70. Clarke et al (2019), 'The underutilized role of community gardens in improving cities' adaptation to climate change: A review' <https://www.sesync.org/sites/default/files/2022-11/Clarke%20et%20al.%20Urban%20Gardens.pdf> People, Place and Policy Cyrchwyd 28 Gorffennaf 2025
- 71 – 74. Cafodd y diwygiad Gofod i Dyfu (ar adeg ei ysgrifennu, Diwygiad 149 i'r Bil Cynllunio a Seilwaith ar hyn o bryd) ei ddrafftio a'i ategu gan aelodau'r Rhwydwaith Garddio Cymunedol Cenedlaethol, yn cynnwys y RHS, Cymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd, Garden Organic, Sustain, Thrive, Incredible Edible a'r Ymddiriedolaethau Natur. Noddwyd y diwygiad gan Sarah Champion AS yn Nhŷ'r Cyffredin, a'i hyrwyddo gan y Farwnes Bennett o Manor Castle yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ar adeg ei ysgrifennu, mae'r Bil yn y Cam Pwylgor yn Nhŷ'r Cyffredin, ac nid yw'r penderfyniad ar Ddiwygiad 149 wedi'i wneud hyd yma





rhs.org.uk

RHS Elusen Gofrestredig Rhif: 222879/SC038262
Cyhoeddwyd 2025